OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 420 (Cy. 63)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *11 Ebrill 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymruu - - - -* | *12 Ebrill 2023* |
| *Yn dod i rym - -* | *3 Mai 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 94(5) a (5A), 95(3) a (3A) a 138(7) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 3 Mai 2023.

### Dirymu

**2.** Mae'r Rheoliadau a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020(**3**),

(b) Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2020(**4**), ac

(**1**) 1998 p. 31; *gweler* adran 142(1) am y diffiniadau o "the Assembly", "prescribed" a "regulations". Amnewidiwyd is-adran (5) o adran 94, a mewnosodwyd is-adran (5A) yn adran 94, gan adran 50 o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32). Diwygiwyd is-adran (5A) ymhellach gan adran 152(1) a (7) o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008. Amnewidiwyd is-adran (3) o adran 95, a mewnosodwyd is-adran (3A) yn adran 95, gan baragraff 9 o Atodlen 4 i Ddeddf Addysg 2002. Diwygiwyd is-adran (3A) gan erthygl 5(1) o O.S. 2010/1158 a pharagraff 10(1) a (2) o Ran 1 o Atodlen 2 iddo.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 2020/479 (Cy. 110), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/996 (Cy. 232).

(**4**) O.S. 2020/1606 (Cy. 333).

(c) Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2021(**5**).

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005(**6**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Mae rheoliad 2 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff (1), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"mae i "yr awdurdod derbyn" yr un ystyr ag a roddir i "the admission authority" yn adran 88(1)(a) a (b) o Ddeddf 1998;",

"ystyr "gwrandawiad apêl" ("*appeal hearing*") yw gwrandawiad apêl at ddibenion Pennod 1 o Ran 3 o Ddeddf 1998;",

"ystyr "mynediad o bell" ("*remote access*") yw mynediad at wrandawiad apêl i alluogi'r rheini nad ydynt i gyd yn bresennol gyda'i gilydd yn yr un man i fynd i'r gwrandawiad neu gymryd rhan ynddo ar yr un pryd drwy ddulliau electronig, gan gynnwys drwy gyswllt awdio byw a chyswllt fideo byw;",

"ystyr "swyddog cyflwyno" ("*presenting officer*") yw person a enwebir gan yr awdurdod priodol, i wneud sylwadau llafar i'r panel apêl mewn perthynas â'r apêl;", a

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Mae "cyswllt awdio byw", mewn perthynas â pherson (P) sy'n cymryd rhan yn y gwrandawiad apêl, yn gyswllt ffôn byw neu'n drefniant arall sydd—

(a) yn galluogi P i glywed yr holl bersonau eraill sy'n cymryd rhan yn y gwrandawiad apêl nad ydynt yn yr un lleoliad â P, a

(b) yn galluogi'r holl bersonau eraill sy'n cymryd rhan yn y gwrandawiad apêl nad ydynt yn yr un lleoliad â P i glywed P.

(4) Mae "cyswllt fideo byw", mewn perthynas â pherson (P) sy'n cymryd rhan yn y gwrandawiad apêl, yn gyswllt teledu byw neu'n drefniant arall sydd—

(a) yn galluogi P i weld ac i glywed yr holl bersonau eraill sy'n cymryd rhan yn y gwrandawiad apêl nad ydynt yn yr un lleoliad â P, a

(b) yn galluogi'r holl bersonau eraill sy'n cymryd rhan yn y gwrandawiad apêl nad ydynt yn yr un lleoliad â P i weld ac i glywed P."

(3) Yn rheoliad 3, ar ôl y geiriau "paragraff perthnasol yn" mewnosoder "Atodlen 1".

(4) Yn rheoliad 5, ar ôl y geiriau "yn unol ag" mewnosoder "Atodlen 2".

(5) Mae Atodlen 2 wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(a) o flaen paragraff 1 mewnosoder—

"**A1. Gwrandawiadau apêl**

(1) Caniateir i awdurdod derbyn benderfynu bod rhaid cynnal gwrandawiad apêl—

(a) yn bersonol,

(**5**) O.S. 2021/996 (Cy. 232).
(**6**) O.S. 2005/1398 (Cy. 112), a ddiwygiwyd gan O.S. 2009/823 (Cy. 73), O.S. 2010/1142 (Cy. 101), O.S. 2013/2535 (Cy. 250) ac O.S. 2020/479 (Cy. 110).

(b) yn gyfan gwbl drwy ddefnyddio mynediad o bell ("apêl o bell"), cyhyd â bod yr amodau yn is-baragraff (4) wedi eu bodloni, neu

(c) yn rhannol yn bersonol ac yn rhannol drwy ddefnyddio mynediad o bell ("apêl hybrid"), cyhyd â bod yr amodau yn is-baragraff (4) wedi eu bodloni.

(2) Ni chaniateir i apêl o bell ond cael ei chynnal yn gyfan gwbl drwy gyswllt awdio—

(a) os nad oes cyswllt fideo byw ar gael am resymau sy'n ymwneud â chysylltiad rhyngrwyd, a

(b) os yw'r apelydd a'r swyddog cyflwyno yn gytûn.

(3) Os yw awdurdod derbyn yn penderfynu bod rhaid cynnal naill ai apêl o bell neu apêl hybrid, rhaid iddo wneud yr holl drefniadau angenrheidiol er mwyn i'r panel apêl gael mynediad at yr offer mynediad o bell angenrheidiol.

(4) Mae'r amodau y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (1)(b) ac (c) fel a ganlyn—

(a) bod y partïon yn gallu cyflwyno eu hachos yn llawn,

(b) bod gan bob cyfranogwr fynediad at y dulliau electronig i'w alluogi i glywed a chael ei glywed, ac i weld a chael ei weld (pan ddefnyddir cyswllt fideo byw), drwy gydol y gwrandawiad apêl, ac

(c) bod yr awdurdod derbyn yn ystyried bod modd gwrando ar yr apêl mewn ffordd deg a thryloyw.

(5) Caniateir i'r awdurdod derbyn benderfynu y bydd apêl yn cael ei phenderfynu ar sail yr wybodaeth ysgrifenedig a gyflwynir os nad yw naill ai'r swyddog cyflwyno neu'r apelydd yn gallu bod yn bresennol ar ddyddiad y gwrandawiad.",

(b) ym mharagraff 1(6), yn lle "ymddangos a gwneud" rhodder "wneud", ac

(c) ym mharagraff 2(6), yn lle "ymddangos a gwneud" rhodder "wneud".

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

11 Ebrill 2023

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005"). Mae Rheoliadau 2005 yn rhagnodi materion sy'n ymwneud ag apelau sy'n cael eu dwyn o dan adrannau 94 a 95 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998") fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002.

Gwnaeth Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020 ("Rheoliadau 2020") ddiwygiadau dros dro i Reoliadau 2005 er mwyn caniatáu, o dan amgylchiadau penodol sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws—

(a) panelau apêl a chanddynt ddau aelod;

(b) i banelau apêl gynnal gwrandawiadau drwy fynediad o bell neu benderfynu apelau ar sail gwybodaeth ysgrifenedig.

Darparodd rheoliad 2(2) o Reoliadau 2020 fod y diwygiadau hynny wedi peidio â chael effaith ar 31 Ionawr 2021, ond roedd hynny yn ddarostyngedig i ddarpariaethau arbed yn rheoliad 3 o Reoliadau 2020. Diwygiwyd y dyddiad hwnnw i 30 Medi 2021 gan Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2020 ("Rheoliadau pellach 2020"). Diwygiwyd y dyddiad eto i 30 Medi 2022 gan Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2021 ("Rheoliadau 2021").

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau 2020, Rheoliadau pellach 2020 a Rheoliadau 2021. Yr effaith yw bod Rheoliadau 2005 yn parhau mewn effaith a'u bod heb eu diwygio gan Reoliadau 2020, Rheoliadau pellach 2020 na Rheoliadau 2021.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Reoliadau 2005. Mae rheoliad 3(5)(a) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod paragraff newydd A1 yn Atodlen 2 i Reoliadau 2005. Mae paragraff A1 yn caniatáu i awdurdodau derbyn benderfynu, o dan amgylchiadau penodol, a yw gwrandawiad apêl i'w gynnal yn bersonol, drwy fynediad o bell ("apêl o bell") neu'n rhannol yn bersonol ac yn rhannol drwy fynediad o bell ("apêl hybrid") (paragraff A1(1) o Atodlen 2 i Reoliadau 2005 fel y mae wedi ei fewnosod gan y Rheoliadau hyn). Os yw'r awdurdod derbyn yn penderfynu cynnal apêl o bell neu apêl hybrid rhaid iddo wneud yr holl drefniadau angenrheidiol er mwyn i'r panel apêl gael mynediad at yr offer mynediad o bell angenrheidiol (paragraff A1(3) o Atodlen 2 i Reoliadau 2005 fel y mae wedi ei fewnosod gan y Rheoliadau hyn).

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2005 ymhellach i ganiatáu i'r awdurdod derbyn benderfynu y caniateir i apêl gael ei phenderfynu ar sail gwybodaeth ysgrifenedig o dan amgylchiadau penodol (paragraff A1(5) o Atodlen 2 i Reoliadau 2005 fel y mae wedi ei fewnosod gan y Rheoliadau hyn).

Mae darpariaeth bellach mewn perthynas ag apelau derbyn wedi ei gwneud mewn cod o dan adran 84 o Ddeddf 1998.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Cynllunio Busnes a Llywodraethiant Addysg, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.